# Dysgu Oedolion yn y Gymuned
## Adroddiad Effaith
## 2022



PARTNERIAETH CYMRU
DYSGU OEDOLION
ADULT LEARNING
PARTNERSHIP WALES



# Tabl Cynnwys


3 Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru

4 Beth yw Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

5 Manteision Dysgu Oedolion yn y Gymuned

7 Beth mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ei ddarparu?

10 Dysgu er mwyn diddordeb cyffredinol a hamdden

11 Cyfrannu at Flaenoriaethau Polisi

13 Astudiaethau Achos Dysgu Oedolion yn y Gymuned

27 Rôl Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn yr adferiad

28 Cenedlaethau'r Dyfodol

30 Sicrhau Cenedl Ail Gyfle yng Nghymru

# Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru

Mae mwy o angen cyfleoedd i oedolion ddysgu ar pob cyfnod a cham o'u bywydau yn awr nac erioed o'r blaen. Cyhoeddodd Pwyllgor Addysg Oedolion y Weinyddiaeth Ailadeiladu Adroddiad ar Addysg Oedolion yn 1919, yn dweud fod poblogaeth a addysgir drwy gydol bywyd yn hanfodol ar gyfer dyfodol y wlad.

"Adult education must not be regarded as a luxury for a few exceptional persons here and there ... it is a permanent national necessity, an inseparable aspect of citizenship, and therefore should be both universal and lifelong."

Gosododd yr adroddiad hwn y sylfeini ar gyfer ymagwedd ryddfrydol at addysg oedolion am weddill y 20fed ganrif. Mae ei ganmlwyddiant yn gyfle hanfodol i ystyried yr anghenion a'r posibiliadau ar gyfer addysg oedolion heddiw ac i'r ganrif i ddod. Yn ôl bryd hynny roedd yr adroddiad yn ymateb i adferiad yn dilyn y rhyfel – mae ein ffocws yn awr ar sicrhau adferiad o bandemig byd-eang – y gallu i gael mynediad i swyddi da, diogelu ein hiechyd meddwl, mynediad i dechnolegau digidol a'r sgiliau i weithredu ar-lein.

Rydym yn addasu i effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd, newidiadau sylfaenol yn y ffordd y caiff gwaith ei drefnu, newidiadau yn y ffordd y mae ein plant yn dysgu, gwneud synnwyr o fyd lle rydym angen y sgiliau i ddeall sut y cawn ac y defnyddiwn newyddion a gwybodaeth.

Caiff ein gwerthoedd mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned eu gyrru gan ddymuniad i weithio gyda chymunedau i alluogi pobl nid yn unig i weithredu gyda byw o ddydd i ddydd ac adeiladu'r sgiliau i gael mynediad i swyddi da – ond hefyd i sicrhau y gall pobl fyw'n dda a dod yn ddinasyddion gweithgar. Mae ein dysgwyr yn adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol, canfod ffrindiau a mentoriaid, datblygu hyder yn eu gallu a chael ail gyfle i ddysgu mewn gofod diogel. Ein diben mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned yw dod â dysgu i galon cymunedau, ac agor y drws i ddysgu a all fod wedi bod ar gau ers dyddiau ysgol.

Mae gennym uchelgais i greu dysgwyr gydol oes, i weld ein dysgwyr yn datblygu ond hefyd i'w gweld yn dod yn fodelau rôl o fewn eu teuluoedd, i fod yn arweinwyr yn eu cymunedau, i gael y dulliau i fod yn hapus ac iachach yn eu bywydau eu hunain.

**Phil Southard & Martin Walker**
**Cyd-gadeiryddion, Partneriaeth Addysg Oedolion yng Nghymru**

# Beth yw Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

## Adeiladu cenedl ail gyfle a rhoi cyfle teg mewn bywyd i bawb

Mae nifer o Bartneriaethau Addysg Oedolion yn darparu dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru yn cynnwys Addysg Oedolion Cymru.

Caiff cyrsiau a chyfleoedd dysgu eu cyflwyno drwy rwydwaith amrywiol o ddarparwyr, yn cynnwys gwasanaethau addysg oedolion awdurdodau lleol, colegau a'r trydydd sector. Mae darpariaeth yn gweithio drwy greu partneriaethau gydag addysg uwch, Canolfannau Byd Gwaith, byrddau iechyd, ysgolion a gwasanaethau cymorth yn ehangach ar gyfer iechyd meddwl, tai, dyled, a dibyniaeth.

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cyflwyno sgiliau hanfodol: cymwysterau darllen, ysgrifennu, sgiliau digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), yn ogystal â dysgu ar gyfer cyflogadwyedd a gwella llesiant, rhaglenni dysgu fel teulu a diddordeb er diddordeb cyffredinol a hamdden.

Mae ein partneriaethau yn gweithio gyda'n cymunedau i ymateb i angen lleol, ynghyd ag asiantaethau allweddol eraill a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach mewn ffordd holistig.

Gwyddom o'n gwaith fod dysgu oedolion yn y gymuned yn trawsnewid bywydau gan chwarae rôl hanfodol mewn cyflogadwyedd, meithrin sgiliau hanfodol a digidol, llesiant, cefnogi teuluoedd, hyrwyddo cynhwysiant a helpu pobl o bob oed i fyw bywydau bodlon, mwy annibynnol.

I rai, mae dysgu yn y gymuned yn rhwyd ddiogelwch yn dal y rhai a all fod wedi colli allan ar eu haddysg y tro cyntaf, gan gyrraedd pobl "yn agos gartref" mewn lleoliadau y maent yn eu hadnabod a gweithio gyda phartneriaid sydd â rolau yr ymddiriedir ynddynt i gefnogi materion ehangach yn ymwneud â dyled, dibyniaeth, tai ac iechyd.

Mae gan ddysgu cymunedol rôl hanfodol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, lle mae'n gweithio orau pan fydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau sy'n darparu ail gyfle i ddysgu, gostwng unigrwydd a chynyddu cydnerthedd pobl i'w galluogi i fyw bywydau hapusach, iachach a mwy hyderus.

# Manteision Dysgu Oedolion yn y Gymuned

## Dywedodd Adroddiad Thematig 2016 Estyn ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned:

"Mae partneriaethau yn cynnal ymrwymiad cadarn i ddarparu dysgu i ddysgwyr anodd eu cyrraedd, fel pobl sydd wedi bod yn ddi-waith dros gyfnod hir, rhieni sengl, grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl ag anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol, pobl arunig a phobl oedrannus, a phobl sydd wedi cael profiad gwael o addysg statudol."

"Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ehangach na darparu cyrsiau medrau sylfaenol, ond un o gryfderau dysgu oedolion yn y gymuned oedd ei lwyddiant yn cefnogi oedolion sydd wedi colli allan ar addysg sylfaenol, rhifedd, sgiliau digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill."

"Mewn llawer achos mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn dal y rhai y bu tarfu ar eu haddysg ffurfiol, neu sy'n mynd drwy newidiadau yn eu bywydau neu yrfaoedd sy'n galw am fedrau neu ddealltwriaeth newydd fel pobl ifanc sy'n gadael ysgol heb fedrau sylfaenol, pobl sydd newydd gyrraedd y wlad sydd angen cefnogaeth i ddod yn ddinasyddion sydd wedi integreiddio'n llawn, y rhai y mae eu swyddi yn ansicr neu'n diflannu, y rhai sy'n gadael carchar neu ofal."

Mae'n rhaid i bobl mewn cymunedau fedru llunio'r hyn sy'n digwydd, yr hyn a ddysgant a sut y gwnânt hynny. Mae allgymorth parhaus, cefnogaeth cymheiriaid, cefnogaeth gan y gymuned a mynediad i adnoddau yn allweddol. Mae gan addysg oedolion ran bwysig tu hwnt mewn helpu pobl i ddeall, delio gyda a chymryd peth rheolaeth ar newidiadau bywyd, profiadau newydd a sefyllfaoedd. Mae angen cefnogi darpariaeth eang o addysg oedolion, yn cynnwys pob agwedd o fywyd personol, cymunedol a gwaith. Mae'r holl fathau newydd hyn o ddysgu yn dod ag ystod eang o fuddion i unigolion ac mae eu buddion yn ehangach na rhai addysgol yn unig.

**Mae 3ydd Adroddiad Byd-eang UNESCO ar Ddysgu ac Addysg Oedolion (GRALE 3) yn cydnabod effaith addysg oedolion ar draws pob agwedd o fywyd.**

"Soniodd gwledydd am effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant, cyflogaeth a'r farchnad lafur a bywyd cymdeithasol, dinesig a chymunedol. Mae dysgu ac addysg oedolion wedi arwain at wella ymddygiad ac agweddau at iechyd, disgwyliad oes hirach a gostyngiad mewn afiechydon ffordd o fyw, gyda gostyngiad cymesur mewn costau gofal iechyd."



## Economaidd

Gall ennill cymhwyster lefel 2 llawn gynyddu enillion unigolyn gan 11% a'u cyfle o fod mewn cyflogaeth gan 2 pwynt canran o gymharu gyda rhai nad ydynt yn ennill y lefel honno **(Adroddiad Panel Annibynnol i'r Adolygiad o Addysg Ôl-18, Mai 2019)**

## Iechyd a Llesiant

Canfu 2019 arolwg gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr, fod y sawl sy'n ymweld â'u meddygon teulu yn llai aml na'r boblogaeth gyffredinol a dywedodd yr ymatebwyr y teimlent fod dysgu yn dda ar gyfer eu hiechyd meddwl a chorfforol.

**Canfu Prosiect Ymchwil Iechyd Meddwl Dysgu** yn y gymuned nad oedd gan 52% o ddysgwyr gyda symptomau pryder a/neu iselder symptomau clinigol sylweddol erbyn diwedd eu cwrs (Ipsos Mori et al., 2018, a nodwyd ym Mhwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin, 2020).

## Cymdeithasol a Chymunedol

**Dynododd adroddiad thematig 2016 Estyn ar Ddysgu Oedolion** yn y Gymuned bod ystod eang o fuddion cymdeithasol yn gysylltiedig gyda dysgu drwy astudiaethau hydredol a thraws-adrannol tebyg i lefelau uwch o gyfalaf cymdeithasol, yn cynnwys ymddiriedaeth a rhwydweithiau cymdeithasol, lefel uwch o ymgyfraniad cymunedol ac ymgysylltu gwleidyddol yn ogystal â mwy o integreiddiad a chydlyniaeth cymdeithasol.

## Dysgu rhyng-genhedlaeth

Dywedodd 66% o ymatebwyr yr arolwg gyda phlant o adroddiad 2019 WEA eu bod yn annog eu plant i ddysgu mwy a dywedodd 64% y gallent yn awr helpu eu plant gyda darllen, ysgrifennu a mathemateg.

# Beth mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ei ddarparu?

## Sgiliau Hanfodol

Mae'r pandemig coronafeirws wedi dangos fod pobl sydd â lefelau isel o sgiliau hanfodol yn debyg o wynebu anawsterau wrth ganfod a chadw swyddi. Maent hefyd mewn risg o gael eu hallgau o wasanaethau cyhoeddus hanfodol a chysylltiadau cymdeithasol sy'n awr yn digwydd ar-lein, yn cynnwys tasgau bob dydd megis siopa am fwyd, cysylltu gyda ffrindiau a theulu, a chael mynediad i ofal iechyd heb fod yn argyfwng tebyg i apwyntiadau meddyg teulu. Canfu **Arolwg Sgiliau Oedolion 2010**, y data diweddaraf ar gyfer Cymru, mai llythrennedd lefel mynediad neu is oedd gan 12% o bobl oedran gwaith. Roedd gan tua 50% o oedolion, tua 918,000 o unigolion, sgiliau rhifedd dan lefel 1. Mae Cymunedau Digidol Cymru yn awgrymu fod 33% o oedolion yng Nghymru yn brin o sgiliau digidol gyda 10% o oedolion heb fod ar-lein. Maent yn colli cyfleoedd i arbed arian, canfod gwaith, dysgu ar-lein a chael mynediad i wasanaethau pwysig.

Cafodd yr effaith ehangach a gaiff sgiliau hanfodol mewn oedolion ar gymdeithas ei nodi mewn adroddiadau eraill mewn gwledydd eraill. Yn yr Iseldiroedd, canfu adroddiad a gomisiynwyd gan **Sefydliad Llythrennedd yr Iseldiroedd** fod cyfanswm cost cymdeithasol llythrennedd isel yn gyfanswm o 1.12 biliwn Ewro bob blwyddyn, gyda tua hanner cost hynny yn disgyn ar ysgwyddau llywodraeth a chymdeithas. Yn Iwerddon, mae'r llywodraeth wedi cydnabod pwysigrwydd gwella llythrennedd a rhifedd oedolion ac felly wedi cyhoeddi cynllun **traws-lywodraeth newydd** i'w gwneud yn flaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion na chaiff eu diwallu.

## Dysgu fel Teulu

Mae darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi meithrin arbenigedd ac wedi dangos ymyriadau dysgu i gefnogi teuluoedd mewn ysgolion ac yn y gymuned yn ehangach. Mae rhaglenni Dysgu fel Teulu yn rhoi dull ymgysylltu i gyrraedd cleifion a all fod â lefelau isel o sgiliau hanfodol, rhai o gymunedau ymfudwyr nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt a'r rhai a fu allan o'r farchnad lafur. Mae Dysgu fel Teulu yn cyflwyno sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar gyfer rhieni yn ogystal â sgiliau ESOL a Chyflogadwyedd. Mewn llawer o achosion, dyma'r cam cyntaf yn ôl i addysg ar gyfer rhai a all fod wedi gadael yr ysgol eu hunain heb unrhyw gymwysterau. I rai mae'n dechrau eu taith ddysgu sy'n eu gweld yn symud ymlaen i ddysgu pellach yn y gymuned neu tu hwnt i addysg bellach ac addysg uwch.

Tra'n buddsoddi mewn datblygu sgiliau a hyder rhieni, mae'n amlwg fod gan y dull hwn fanteision ar gyfer eu plant yn nhermau presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol a chodi uchelgais ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Gwyddom fod rhieni sydd â hyder mewn dysgu yn gweld manteision addysg a, thrwy fod â phrofiad cadarnhaol o ddysgu, yn medru rhoi mwy o gefnogaeth i'w plant wrth iddynt symud ymlaen drwy addysg. I rai mae'n cynyddu hyder i ddarllen ac ysgrifennu gyda'u teulu a chefnogi dysgu yn y cartref, yn ogystal â rhyngweithio gyda staff addysgu a chymryd mwy o ran ym mywyd cymuned yr ysgol. Mae dysgu fel teulu yn gwneud cyfraniad pwysig ar gyfer creu diwylliant o ddysgu gydol oes.

# Iechyd a Llesiant

**Gall cwricwlwm eang gyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a chefnogi'r GIG yng Nghymru gyda dull ataliol.**

Dangosodd **3ydd Adroddiad Byd-eang UNESCO ar Ddysgu ac Addysg Oedolion (GRALE III)** bod pobl gyda lefelau isel o addysg yn fwy tebygol o adrodd iechyd cyffredinol gwael a chyfyngiadau ar eu gallu i weithredu. Canfu'r adroddiad hefyd fod addysg oedolion yn arwain at well ymddygiad ac agweddau iechyd, disgwyliad oes uwch a gostwng mewn afiechydon ffordd o fyw, gyda gostyngiad cymesur mewn costau gofal iechyd.

Canfu astudiaeth gan y Sefydliad Iechyd Meddwl fod dangosyddion allweddol o ofid ymysg oedolion yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys unigrwydd, meddyliau a theimladau am hunan-laddiad a pheidio ymdopi'n dda gyda straen, wedi gwaethygu ers dechrau'r pandemig.

Ar y llaw arall, mae lefelau uwch o lythrennedd yn arwain at gyfraddau disgwyliad oes uwch, gostyngiad mewn afiechyd, gwell iechyd meddwl ac ymddygiad ac agweddau iachach yn gyffredinol.

Amlygodd Adroddiad **Marmot ar Anghydraddoldeb Iechyd** rôl addysg yng nghyfleoedd bywyd y rhai sydd fwyaf mewn risg o iechyd gwael ac awgrymu ailffocysu ymdrech i drin penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd – yn cynnwys mynediad i addysg.

Mae tystiolaeth dda fod addysg oedolion yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth, gallu i ymdopi a theimlad o ddiben mewn bywyd, lefel uwch o lesiant, newidiadau cadarnhaol mewn llesiant meddwl ac ymdeimlad o bwrpas. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y gall dysgu sgiliau newydd a pharhau addysg drwy gydol bywyd oedi dyfodiad dementia.

**Tystiolaeth gan y Sefydliad Iechyd:**
"Felly mae gan dargedu cyfleoedd dysgu gydol oes, yn ogystal â gwybodaeth a chymorth ariannol i roi mynediad i'r cyfleoedd hyn i oedolion heb fawr neu ddim cyrhaeddiad addysgol y potensial i wella iechyd a gostwng anghydraddoldeb iechyd o fewn y boblogaeth."

**Iach, Cyfoethog a Doeth, Dysgu a Gwaith, 2016**
"Mae dysgu ansawdd da a hefyd gyflogaeth ansawdd da, a defnyddio ymadrodd Marmot, 'yn diogelu iechyd' a bod yn dlawd o ran dysgu a bod allan o waith yn niweidiol i iechyd. Mae dysgu a gwaith teg yn warchodol oherwydd eu bod yn gwella llesiant ac yn rhoi asiantaeth i ni. Mae eu habsenoldeb yn niweidiol oherwydd ei fod yn cyfrannu at iechyd meddwl gwael, ynysigrwydd cymdeithasol a hunan-reoli gwael ar iechyd."

## Sgiliau Cyflogadwyedd

Rydym yn wynebu newidiadau sylweddol yn y ffordd a gweithiwn, dyfodol gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau fod economi Cymru yn ffynnu. Gwyddom fod cael lefelau da o sgiliau hanfodol yn cyflwyno llwybrau i waith gwerth chweil. Mae parhau i gael mynediad i ddysgu yn y gweithle yn hanfodol i bobl symud ymlaen ac ennill y sgiliau sydd eu hangen i addasu a chynnal cyflogaeth. Gall fod angen i lawer o bobl sy'n awr yn edrych am swyddi newydd i gynyddu sgiliau a gall hyn gynnwys gloewi eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn rhan allweddol o'r ecosystem dysgu gydol oes yng Nghymru – mae darpariaeth yn meithrin hyder ac yn creu dysgwyr sydd eisiau sicrhau cynnydd ac unwaith y maent wedi dechrau eu taith maent eisiau parhau i ddysgu. Cefnogwn ddysgwyr sydd mewn llawer o achosion y rhai sydd bellaf i ffwrdd o gyflogaeth; mae ein darpariaeth yn sicrhau eu bod yn datblygu a gwella sgiliau i bontio i'r gweithle.

Mae'r **cynllun newydd ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau** yn gosod gweledigaeth am Gymru decach a mwy cyfartal. Mae'r cynllun yn nodi pum maes blaenoriaeth: cenedlaethau'r dyfodol, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd, hyrwyddo gwaith teg i bawb, mwy o gefnogaeth i bobl gyda chyflyrau iechyd hirdymor, a dysgu am oes.

Bydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau y caiff y blaenoriaethau dysgu gydol oes a nodir yn y **Rhaglen Lywodraethu** eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys ad-drefnu'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ehangu'r cynnig Cyfrifon Dysgu Personol, cyflwyno adolygiadau canol gyrfa, cynyddu nifer yr oedolion mewn dysgu a sefydlu **Comisiwn ar Gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil** (CADY).

## ESOL a WSOL

Mae mynediad i ddysgu yn allweddol i hyrwyddo integreiddiad ac i helpu'r rhai sy'n mudo i Gymru i gymryd rhan lawn yn y cymunedau sy'n dod yn gartrefi iddynt. Mae medru cyfathrebu'n hyderus yn hanfodol os ydynt i ddefnyddio'r set sgiliau a ddeuant gyda nhw.

Mae Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn rhan hanfodol o ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac yn allweddol i gefnogi a setlo ymfudwyr a ffoaduriaid.

Mae darparwyr hefyd yn awr yn datblygu Cymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (WSOL) i'w gynnwys yn eu darpariaeth.

# Dysgu ar gyfer diddordeb cyffredinol a hamdden


Mae llawer o ddarparwyr addysg oedolion hefyd yn rhedeg rhaglenni ‘Dysgu ar gyfer Hamdden’ sy’n darparu dosbarthiadau hamdden a llesiant ar gyfer eu cymunedau ar sail adfer cost. Fel arfer mae’r rhaglenni dysgu hyn yn cynnwys dosbarthiadau mewn – dyfrlliwiau, darlunio bywyd, clustogwaith, addurno teisennau, crochenwaith, ysgrifennu creadigol, gwnïo, hanes teulu, ymwybyddiaeth ofalgar, ieithoedd, ffotograffiaeth, gwaith blodau, gwydr tawdd, mosaig, gemwaith, coginio, yoga a chwnsela – ac yn darparu ar gyfer y rhai sy’n hapus i dalu am y cyrsiau er eu budd hamdden a llesiant eu hunain. Mewn un awdurdod lleol roedd gan y rhaglen hamdden bron 3,000 wedi ymrestru mewn blynyddoedd academaidd (cyn Covid).

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn parhau i adeiladu ar y sylfaen bresennol i gyflwyno ystod o raglenni dysgu drwy gyllid Llywodraeth Cymru a chydweithio effeithlon ar draws y bartneriaeth. Caiff y rhaglenni Dysgu ar gyfer Hamdden eu harsylwi yn ystod arolygiadau darparwyr Estyn i helpu sicrhau ansawdd darpariaeth.

**Roedd 3,000 o ddysgwyr wedi dilyn dysgu ar gyfer diddordeb cyffredinol ym Mhartneriaeth Dysgu y Fro yn ystod 2018**




**739** yn dysgu Celf



**766** yn dysgu Crefftau a Thecstiliau



**246** yn dysgu Diddordebau Cyffredinol



**163** yn dysgu Cyfrifiaduron a Ffotograffiaeth



**316** yn dysgu Iechyd a Llesiant



**35** yn dysgu Datblygu Personol




**703** yn dysgu Ieithoedd

# Cyfrannu at flaenoriaethau polisi

**Mae gwasanaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar draws Cymru yn gwneud cyfraniadau pwysig mewn ystod o feysydd polisi a blaenoriaethau. Mae'r partneriaethau yn ymroddedig i ddileu rhwystrau mewn addysg ac ehangu mynediad i bob unigolyn gael cyfle cyfartal fydd yn galluogi a grymuso mwy o bobl i gymryd rhan mewn dysgu a derbyn cymorth unigol. Mae hyn hefyd yn cynnwys hyrwyddo a chynrychioli cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws gweithgaredd ac ymgysylltu partneriaeth.**

## Cenedl ddwyieithog

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cefnogi gwaith ar draws cymunedau yng Nghymru i helpu adeiladu cenedl ddwyieithog. Mae gwasanaethau yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyflwyno darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Maent yn helpu i gefnogi dysgu ar bob lefel, yn cynnwys dechreuwyr a'r rhai sy'n astudio ar lefel uwch. Mae'n rhan hanfodol o helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

"Bu dysgu'r Gymraeg yn llawenydd pur i fi, rwy'n teimlo o'r diwedd fy mod gartref."

## Cefnogi cyflogadwyedd a sgiliau

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn wasanaeth rheng-flaen sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb tebyg i dlodi, diweithdra ac anfantais addysgol. Mae cefnogi dysgwyr heb fawr neu ddim cymwysterau yn flaenoriaeth bwysig i Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Yn aml dyma'r unigolion sy'n wynebu'r anfantais mwyaf ac mae addysg gymunedol yn gam cyntaf yn ôl i ddysgu iddynt. I lawer mae'n ymwneud ag ennill sgiliau newydd ar gyfer gwaith a bywyd, yn cynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn llythrennedd a rhifedd.

"Bu'n anodd ar adegau ond rwy'n falch tu hwnt i mi ei wneud ef. Bu'n brofiad gwych. Byddwn yn ei argymell yn fawr iawn. Rwy'n awr yn nes nag erioed at gyflawni fy mreuddwyd o ddod yn weithiwr cymdeithasol."

## Cysylltiadau, iechyd a llesiant

Yn ogystal â manteision ennill cymwysterau ffurfiol gydag achrediad, mae Dysgu Oedolion yn Gymuned hefyd yn helpu unigolion i gadw mewn cysylltiad gyda'i gilydd ac i helpu pobl i wella eu hiechyd a'u llesiant. Mae'n cefnogi clybiau a grwpiau dysgu anffurfiol lleol, yn cynnwys ar gyfer pobl hŷn. Mae adborth dysgwyr wedi dangos manteision iddynt aros mewn cysylltiad â'i gilydd, datblygu cyfeillgarwch, bod yn weithgar yn y gymuned a gwella eu llesiant meddwl a chorfforol. Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn fwy na dim ond ennill cymwysterau. Mae'n rhaff bywyd ar gyfer miloedd o ddysgwyr ar draws Cymru, gan eu helpu i gadw mewn cysylltiad ag eraill, atal unigrwydd a gwella iechyd.

"Dywedwyd wrthyf na fyddwn yn byw ar ôl 30 os byddwn yn parhau i fyw fel yr oeddwn. Eto rwy'n adnabod llawer iawn o bobl sydd wedi bod trwy waeth. Os gallaf ysbrydoli o leiaf un person neu ddangos i rywun sydd mewn trafferthion y gallwch newid eich bywyd drwy addysg, yna mae'r cyfan ei werth ef."

---

## Cenedl Nodded

Mae Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cyflwyno rhaglenni ESOL a WSOL ar gyfer ffoaduriaid ac ymfudwyr. Mae darpariaeth yn rhoi cyfleoedd ar gyfer rhai sy'n setlo yng Nghymru i gynyddu sgiliau iaith a chyflogadwyedd. Mae partneriaethau yn cysylltu gyda rhwydweithiau gwirfoddol ac addysg uwch i sicrhau fod dysgwyr yn setlo ac y gallant sicrhau cynnydd.

"O adeg pan mai'r cyfan y medrwn ei ddweud oedd rhoi atebion un gair i siarad yn y Senedd – rwyf wedi canfod fy llais. Rwy'n awr yn ddiogel ac yn cael fy nghefnogi. Rwy'n dal i weithio'n galed i fod yn fenyw gref ar gyfer fy nheulu. Pan mae pobl yn clywed fy stori, rwyf eisiau dweud wrthynt i byth â digalonni."

---

## Anghydraddoldeb digidol

Ynghyd â llythrennedd a rhifedd, caiff sgiliau digidol eu cydnabod fel arfau hanfodol ar gyfer y farchnad lafur a medru cael mynediad i wasanaethau mewn bywyd ehangach. Mae gwasanaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn helpu i roi'r sgiliau y mae pobl eu hangen a bydd ganddo rôl bwysig wrth gyflawni uchelgais cynhwysiant digidol newydd yn Strategaeth Ddigidol newydd Llywodraeth Cymru.

"Mae'r byd yn newid. Mae siopau yn cau ac mae mwy a mwy o bethau yn symud ar-lein. Gall godi arswyd ar rywun fy oed i. Roeddwn yn poeni am geisio defnyddio cyfrifiadur a gwneud y peth anghywir. Penderfynais mai'r peth gorau i'w wneud fyddai dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur yn iawn."

# Dysgu Oedolion yn y Gymuned
## Astudiaethau achos



















stepping stones
A confidential service across North Wales
We provide individual and group counselling for adults who have been sexually abused as children






Dysgu Cymraeg
Sylfaen
Foundation (A2)
De Cymru








04
Mynediad
Mynd a dwad

# **Fatma Al Nahdy**
## Gorffennol Gwahanol: Rhannu Dyfodol




[Gweld/Darllen y stori lawn]

Pan ddaeth Fatma Al Nahdy i Brydain o Yemen yn 2015, nid oedd ganddi unrhyw Saesneg ac nid oedd erioed wedi bod yn yr ysgol oherwydd y rhyfeloedd parhaus a'r sefyllfa gythryblus yn Yemen. Roedd Fatma yn rhugl mewn dwy iaith ond wyddai hi ddim sut i ddarllen nac ysgrifennu. Ganwyd ei mab yn weddol fuan ar ôl iddi gyrraedd ac roedd yn benderfynol i sicrhau gwell bywyd iddo. Felly pan gafodd gynnig cyfle i gofrestru ar gwrs Saesneg fel Ail Iaith (ESOL) yng Ngholeg Cambria, roedd yn nerfus ond yn edrych ymlaen at her newydd. Bum mlynedd yn ddiweddarach, roedd Fatma wedi gorffen ESOL yn ogystal â Diploma Lefel 2 mewn Sgiliau ar gyfer Astudio Pellach a chwrs Lefel 3 Mynediad i Addysg Uwch. Pasiodd TGAU mewn mathemateg a Saesneg ac mae wedi dal ati i ehangu ei gwybodaeth drwy gofrestru ar gyrsiau ECDL, Cymraeg i ddechreuwyr a dehongli. Nod Fatma bob amser fu dod yn nyrs.

I Fatma, roedd dysgu Saesneg yn rhan hanfodol o setlo a dechrau ar ei bywyd newydd yng Nghymru. Dywedodd: "Roeddwn yn nerfus yn mynd i'r dosbarth cyntaf. Roeddwn yn gwybod y byddwn yn cwrdd â llawer o bobl newydd ac roeddwn yn swil iawn i ddechrau. Ond roedd yn ddosbarth hyfryd. Fe wnaeth fy nhiwtoriaid fy helpu i weld yr hwyl mewn dysgu ac ar ôl mis neu ddau dechreuais deimlo'n fwy cartrefol a hyderus. Roedd dysgu Saesneg yn golygu y gallwn fynd allan ac adeiladu cysylltiadau gyda'r gymuned. Fy mab yw fy nghymhelliant a fy ysbrydoliaeth. Roedd dysgu yn ystod y pandemig yn anodd oherwydd fy mod hefyd yn gyfrifol am ei addysg gartref ac yn gofalu amdano. Nid dysgu o bell yw fy hoff ffordd o ddysgu, ond rwy'n gwneud yn iawn.

"Rwyf bob amser wedi eisiau bod yn nyrs, mae'r holl gyrsiau a wnes hyd yma wedi fy helpu i gyrraedd y nod honno. Nid yw wedi bod yn rhwydd, ond ryw'n awr yn nes nag erioed i gyflawni fy mreuddwyd. Pan gyrhaeddais Gymru, wyddwn i ddim am yr help oedd ar gael i mi. Rydw i wedi aros mewn cysylltiad gyda'r merched wnaeth fy helpu ac maen nhw fel teulu yn awr, mae gan fy fab ddwy 'nain am byth'. Fy nghyngor i unrhyw un arall sy'n ystyried dilyn cwrs fel oedolyn yw trefnu eich amser a chanolbwyntio ar eich nod – addysg yw'r allwedd i fywyd."

# **Clare Palmer**
# Sgiliau Hanfodol Bywyd




Gadawodd Clare Palmer yr ysgol yn 14 oed heb unrhyw gymwysterau. Roedd Clare yn angerddol am helpu eraill ac yn breuddwydio am yrfa lle gallai roi rhywbeth yn ôl. Ond erbyn iddi fod yn 18 oed, roedd yn fam gyda mab bach i ofalu amdano. Bu'n gweithio mewn salon trin gwallt am y 14 mlynedd nesaf i gefnogi ei theulu ifanc. Pan ddychwelodd i Gymru gyda'i mab yn 2013, penderfynodd ddefnyddio ei hangerdd i helpu eraill i ddod yn gynorthwyydd gofal. Ar ôl chwe mlynedd yn gweithio yn y sector gofal, roedd Clare yn breuddwydio am ddod yn weithiwr cymdeithasol. Gan wybod y byddai angen cymwysterau mewn mathemateg a Saesneg i gael ei derbyn ar gwrs prifysgol mewn gwaith cymdeithasol, ymunodd â Chanolfan Ddysgu'r Fro ac aeth ymlaen i gwblhau ei Lefel 1 Cymhwyso Rhif a Lefel 2 mewn Cyfathrebu.

Darganfu Clare y byddai'n dal i fod angen cymhwyster ychwanegol mewn mathemateg i gyrraedd ei dewis cyntaf o brifysgol. Felly, flwyddyn ar ôl cael ei chymhwyster cyntaf, dychwelodd i Ganolfan Dysgu y Fro i ddechrau astudio ei Lefel 2 Cymhwyso Rhif. Daeth hyn wrth iddi weithio yn y sector gofal a gafodd ei daro mor galed yn ystod y pandemig.

Yn 2019, ar ôl gorffen Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, roedd gan Claire lawer mwy o hunangred am ba mor bell y gallai fynd â'i gyrfa. Penderfynodd y byddai eisiau mynd â'i hangerdd am ofal gam ymhellach a gwneud cais i brifysgol i ddod yn weithiwr cymdeithasol. Erbyn i'r pandemig daro ym mis Mawrth 2020, roedd wedi ennill Lefel 2 mewn Cyfathrebu a Lefel 1 Cymhwyso Rhif. “Rhwng 14 a 41 oed doeddwn i ddim wedi gwneud unrhyw fathemateg na Saesneg. Roeddwn yn betrus i ddechrau ac, a dweud y gwir, roeddwn yn ofnadwy. Ond fe wnes daflu fy hun iddi a roeddwn yn gwybod ar ôl dim ond ychydig o wythnosau mod i wedi gwneud y penderfyniad cywir.

“Ar un amser roeddwn yn gweithio hyd at 60 awr yr wythnos, weithiau saith diwrnod ar ôl ei gilydd. Roeddwn wedi blino'n lân. Ar ben hynny, roeddwn yn ceisio cydbwyso fy nysgu fy hun gyda gofalu am fy mab a chadw ein tŷ mewn trefn. Dwi dal ddim i wybod sut yn iawn, ond fe ddaethom drwyddi.” Wrth fwrw golwg yn ôl ar ei phrofiad mewn addysg oedolion, dywedodd Clare: “Bu'n anodd weithiau ond rwyf yn anhygoel o falch fy mod wedi ei wneud ef. Bu'r profiad yn wych. Byddwn yn wirioneddol yn ei argymell. Rwy'n awr yn nes nag erioed at gyflawni fy mreuddwyd o ddod yn weithiwr cymdeithasol.”

# Jamie Evans
## Iechyd a Llesiant



**Gweld/Darllen y stori lawn**

Oherwydd teimladau o iselder a gorbryder, roedd Jamie Evans yn dueddol o ynysu ei hun oddi wrth eraill, cymaint felly nes byddai wythnosau'n mynd heibio heb gysylltu â neb arall ac yn defnyddio cyffuriau presgripsiwn i leddfu'r boen. Dywedodd: “Dechreuais ddioddef gorbryder yn fy arddegau. Roedd gen i broblemau iechyd a oedd yn effeithio arna i bob dydd, a olygai fy mod yn colli'r ysgol, a dyna lle dechreuodd y cyfan.”

Cafodd Jamie ddiagnosis o glefyd Crohn, a daeth ei orbryder yn rhwystr enfawr, gan ei atal rhag gweithio, cymdeithasu a gweld unrhyw un y tu allan i'w gartref. “Ar fy ngwaethaf, fyddwn i ddim yn codi o'r gwely, ddim yn ’molchi na bwyta. Fyddwn i ddim yn ateb fy ffôn pan oedd fy nheulu’n ffonio a byddwn yn gwneud esgusodion pan fyddai ffrindiau yn fy ngwahodd i allan, felly roion nhw'r gorau iddi yn y diwedd. Roeddwn i wedi bod yn ddi-waith ers 10 mlynedd oherwydd fy ngorbryder, fy iselder a phroblemau iechyd, a doedd gen i ddim uchelgais na chynlluniau at y dyfodol - dim ond goroesi o ddydd i ddydd oeddwn i. Cefais boenladdwyr ar bresgripsiwn, ond dechreuais ddibynnu mwy a mwy arnyn nhw, a'u cymryd nhw'n amlach gan 'mod i'n teimlo mor anhapus. Yn y pen draw, pan nad oedden nhw'n ddigon, troais at gyffuriau cryfach ac aeth fy mhroblemau o ddrwg i waeth. Fe wnaeth fy ngweithiwr cymorth camddefnyddio sylweddau neilltuo mentor cymheiriaid i mi.” Yno, cafodd daflen am gwrs Seicoleg 12 wythnos gydag Addysg Oedolion Cymru, a oedd yn cael ei gynnal mewn partneriaeth ag elusen iechyd meddwl New Horizons, a chofrestrodd amdano.

“Ar y diwrnod cyntaf, safais y tu allan i'r dosbarth am tua 20 munud yn edrych ar y drws, yn arswydo cyn mynd i mewn. Roeddwn i'n swp sâl yn poeni, a bu bron i mi fynd adref. Ond cliciodd rhywbeth y tu mewn i mi, a gorfodais fy hun i fynd i'r dosbarth. Roedd fy nosbarth cyntaf yn anhygoel. Roeddwn i'n teimlo gartrefol ar unwaith, ac yn edrych ymlaen at y dosbarth nesaf - roeddwn i'n ysu i ddysgu mwy. Pan oedd y cwrs yn dod i ben, doedd Jamie ddim yn teimlo'n barod i roi'r gorau iddi ac fe gofrestrodd ar ddosbarth Troseddeg gyda'r un tiwtor, er bod angen teithio 40 munud i'r cwrs. Ymhen ychydig wythnosau, roedd ar drydydd cwrs magu hyder, y bu’n dilyn tri chwrs yr wythnos, cyn cofrestru yn y pen draw i wneud cwrs Mynediad yn y dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol yng Ngholeg y Cymoedd. “Roeddwn i'n arfer ofni'r anhysbys, ond bellach yn y dosbarth, rwy'n cwrdd â phobl newydd ac yn gwybod bod pawb yn mynd drwy eu pethau eu hunain ac yn delio â phroblemau eu hunain, a does neb yn fy marnu. Rydw i wedi elwa cymaint ar ddysgu, y tu hwnt i bob disgwyl. Nid dim ond gwybodaeth am bwnc o'r dosbarthiadau, ond sgiliau gwerthfawr, hunan-gred, gwydnwch, cyfeillgarwch ac iechyd meddwl gwell".

# **Rhiannon Norfolk**
## Dechrau Arni – Dysgu Cymraeg




[**Gweld/Darllen y stori lawn**]

Roedd cael y cyfle i ddysgu Cymraeg yn ffactor allweddol ym mhenderfyniad Rhiannon Norfolk i symud yn ôl i Gymru. Roedd wedi etifeddu ei chariad at Gymreictod gan ei rhieni, sy’n hanu’n wreiddiol o dde Cymru ac arferent dreulio’u gwyliau bob haf yng Ngwynedd. Fe ysbrydolodd y gwyliau teuluol hynny Rhiannon i astudio ym Mhrifysgol Bangor ble’r oedd wedi bwriadu dod yn rhugl yn yr iaith, ond oherwydd ei hamserlen brifysgol brysur bu raid iddi roi’r gorau i’w gwersi Cymraeg. “Fe es ymlaen gyda fy mywyd, fel mae rhywun yn gwneud, ond roedd Cymru bob amser yn teimlo fel adref ac roedd gen i’r hiraeth yma am yr iaith.”

Bu rhaid aros nes ei bod yn byw yn Wiltshire flynyddoedd yn ddiweddarach cyn i gyfarfyddiad hap a damwain arwain Rhiannon yn ôl i Gymru. “Gwelais boster am fand gwerin o’r enw Calan yn chwarae yn neuadd y dref yn Chippenham,” meddai. “Es draw yno ar fy mhen fy hun ac roeddwn i ar ben fy nigon. Fe deimlais gysylltiad enfawr gyda seiniau prydferth y Gymraeg a’r gerddoriaeth hudolus, a daeth hynny â rhywfaint o’r hyn oeddwn i wedi ei ddysgu yn ôl.”

Pan welodd swydd yn cael ei hysbysebu yn ei maes hi, sef gwerthuso yn y gwasanaeth iechyd, gwnaeth gais amdani, cafodd y swydd a symudodd i Gymru. Flwyddyn yn ddiweddarach roedd bron wedi cwblhau cwrs Cymraeg lefel-sylfaen llwybr carlam yng Nghymuned Ddysgu Penarth. Dywedodd: “Roeddwn i’n poeni y byddwn ymhell ar ôl pawb arall gyda fy Nghymraeg sylfaenol ac nad oeddwn i wedi dysgu am 13 mlynedd, ond roedd yn wych. Roedd pawb mor groesawus ac mae’n rhyfeddol faint ydych chi’n ei gofio.” Roedd Rhiannon yn mynychu’r dosbarth am ddwyawr bob wythnos ochr yn ochr ag ysgolion dydd Sadwrn. Ymunodd â grŵp darllen yng Nghanolfan Ddysgu Cymunedol i Oedolion Palmerston yn y Barri, a mynychu cwrs preswyl penwythnos gyda’i mam, Gill, sydd hefyd yn dysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau yn agos at ei chartref yn Nhrefynwy. Ar ôl cael marciau rhagorol yn ei harholiad mynediad, aeth Rhiannon nawr ati i sefyll ei hasesiad sylfaen. "Mae dysgu Cymraeg wedi bod yn bleser pur i mi, o’r diwedd rwyf wir yn teimlo ’mod i gartref,” meddai.

Mae Rhiannon yn dioddef o iselder, gorbryder a Syndrom Poen Rhanbarthol Cymhleth, sy’n golygu’i bod yn gorfod defnyddio ffon neu gadair olwyn ac yn achosi poen a blinder cyson. Dywedodd Rhiannon: “Mae dod i ddosbarthiadau Cymraeg wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fy iechyd meddwl. Rwy’n mynd ar fy nghyflymder fy hun ac yn cymryd seibiant yn y dosbarth pan fydd angen. Mae dysgu’n rhoi strwythur i mi a lle i wneud ffrindiau. Mae wedi fy helpu i gadw fy ymennydd yn brysur a rhoi teimlad o bwrpas a chyflawni i fi. Roeddwn i wastad yn teimlo’n edifar i mi roi’r gorau i’r Gymraeg ac eisiau datrys hynny, ac rwy’n teimlo mor fodlon nawr fy mod wedi llwyddo.”

**Springboard**

# Dysgu fel Teulu yn y gymuned




**Gweld/Darllen y stori lawn**

Mae Sbardun yn brosiect cymunedol Dysgu Sir Benfro sy'n ymroddedig i ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu fel teulu ansawdd uchel ac sy'n newid bywydau mewn ysgolion a lleoliadau yn y gymuned yn rhai o'r cymunedau tlotaf yn Sir Benfro. Cennad Sbardun yw 'gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau'r holl ddysgwyr y deuwn i gyswllt â nhw'.

Mae Ysgol Gelliswick wedi rhoi Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Gymuned wrth galon bywyd yr ysgol. Mae gweithgareddau teuluol yn digwydd yn yr ysgol bob diwrnod o'r wythnos a'r ystafell gymunedol yw'r lle cyntaf y cewch fynediad iddo wrth gyrraedd yr adeilad. Pan benderfynodd yr awdurdod lleol gau'r ddwy ysgol oedd yn gwasanaethu cymunedau Hakin a Hubberston cododd peth gwrthwynebiad ac ansicrwydd. Cyn agoriad swyddogol yr ysgol newydd, sicrhaodd y Pennaeth gyllid i gefnogi prosiectau ar gyfer codi pontydd rhwng y cymunedau, oedd yn bryderus ynglŷn â gweld eu plant yn symud i ysgol newydd.

Dywed y Pennaeth, Nick Dyer, "Yr her i'r ysgol oedd ymestyn at y rhieni mewn ffordd a fyddai'n dod â'r gymuned at ei gilydd, ffordd a fyddai golygu nid yn unig bontio esmwyth i'r ysgol newydd ond a fyddai'n drawsffurfiol o ran sgiliau, uchelgais a rhagolygon i'r dyfodol." Mae'r gymuned yn cynnwys un o'r wardiau gyda mwyaf o amddifadedd economaidd yng Nghymru, lle mae llawer o blant yn byw mewn tlodi. Ers Medi 2017 cynhaliwyd mwy na 70 o wahanol gyrsiau yn yr ysgol, gyda 187 o oedolion rhwng 18-81 oed wedi eu dilyn.

Mae cyrsiau'n helpu oedolion i ddatblygu eu sgiliau hanfodol a'u gallu i gefnogi eu plant mewn Saesneg a Mathemateg. Mae'r ysgol hefyd wedi ariannu ystod o gyrsiau sy'n ymgorffori sgiliau hanfodol mewn ffordd greadigol - trwy ffotograffiaeth, codio, celf, crochenwaith a chwarae Ukelele. I baratoi ar gyfer lansio'r ysgol newydd daeth y gymuned at ei gilydd i gynhyrchu ffenestri gwydr lliw a llyfr etifeddiaeth ffotograffig. Cafodd côr cymunedol ei sefydlu hefyd.

Mae'r ymgysylltu cymunedol bellach mor gryf nes bod rhieni wedi helpu i godi mwy na £16,000 i gefnogi gweithgareddau teuluol. Mae rhieni'n gwirfoddoli eu hamser fel gweithwyr creche i helpu teuluoedd eraill i gael mynediad i ddysgu fel teulu, ac eraill yn cymhwyso i ddod yn Gynorthwywyr Dysgu yn yr ysgol. Mae'r effaith yn cael ei deimlo yn y gymuned ehangach – erbyn hyn mae rhieni'n cymryd rhan weithgar mewn adfywio Hakin a Hubberston. Mae dysgwyr sy'n oedolion yn helpu i ffurfio dyfodol yr ardal, mae rhai wedi cymryd swyddi ar bwyllgor Buddsoddi Lleol ac etholwyd un rhiant yn Faer Aberdaugleddau.

# Ysgol Uwchradd Cathays
## Grŵp Dysgu Rhieni



**[Gweld/Darllen y stori lawn]**

Bu Ysgol Uwchradd Cathays yn datblygu gwaith gyda'r gymuned dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dechreuodd grŵp bach yn 2014 gyda thri rhiant i ddatblygu sesiynau darllen mewn cydweithrediad gyda'r llyfrgell leol. Eu nod oedd annog darllen yn y gymuned er mwyn datblygu hyder mewn darllen a helpu eu plant eu hunain gartref. Cafodd y grŵp dysgu rhieni i greu i adeiladu dolen rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Tyfodd y grŵp a datblygu sgiliau Llythrennedd Sylfaenol gyda sesiynau ESOL i annog sgiliau darllen, ysgrifennu, darllen a gwrando. Mae'r grŵp wedi datblygu perthynas waith agos gyda'r ysgol ac wedi helpu gyda gweithgareddau codi arian a datblygu cymunedol.

Wrth i fwy o ddysgwyr ymuno â'r sesiwn, penderfynodd yr ysgol ddarparu cwrs ESOL gydag achrediad. Hyd yma, mae pedwar dysgwr wedi cymhwyso am lefel mynediad 1 a 2 ac mae saith o ddysgwyr yn aros am eu cymhwyster.

Dywedodd Noreen, rhiant ar y cwrs, "Fe wnes aros yn y tŷ am ugain mlynedd yn gofalu am fy mhlant. Rydw i eisiau gwneud rhywbeth newydd i fi fy hunan, dysgu sgiliau newydd fel y gallaf gyfathrebu a chymdeithasu gyda phobl eraill ac yna gallaf edrych am swydd i helpu'r gymuned."

Mae'r ysgol yn awr wedi datblygu partneriaeth gyda Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac wedi datblygu yr ystod cyrsiau ar gyfer rhieni a'r gymuned leol. Mae'r cyrsiau deg wythnos yn cynnwys cyrsiau Agored Cymru gydag achrediad mewn cynyddu hyder, gofal plant a sgiliau digidol. Mae holl aelodau'r grŵp yn frwdfrydig a hoffent symud ymlaen i ddysgu ymhellach.

Mae Daxa yn rhiant i gyn ddisgybl a dechreuodd ar y cyrsiau ddwy flynedd yn ôl. Nid oedd ganddi unrhyw sgiliau mewn Saesneg a dywedodd, "Fe wnes wella fy nghyfathrebu Saesneg drwy wersi ESOL a chynyddu fy hyder."

Mae Ysgol Uwchradd Cathays yn ymroddedig i ddatblygu ei gwaith gyda theuluoedd dysgwyr ymhellach i gynyddu cwlwm cymunedol. Dywedodd Christina Roy, tiwtor Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac aelod o staff Ysgol Uwchradd Cathays, "Os yw'r rhieni'n teimlo'n hyderus a chymwys yna gallant drosglwyddo gwerthoedd tebyg i'w plant".

# Jade Miles
## Cynyddu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu



**Darllen y stori lawn**

Dechreuodd Jade Miles gydag Addysg Oedolion Cymru ym mis Ionawr 2021. Teimlai ei bod yn brin o sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu. Esboniodd Jade na fyddai byth yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau yn yr ysgol ac yn cael trafferth yn cyfathrebu gyda phobl.

Tyfodd hyder Jade ers iddi ddechrau'r cwrs ac mae wedi datblygu diddordeb mewn dysgu ac yn teimlo fod ei sgiliau cyfathrebu wedi gwella. Mae'n awr yn benderfynol i ateb ei nodau ar gyfer y dyfodol wrth gefnogi ei phlant gyda gwaith ysgol a byddai'n hoffi dod yn nyrs ryw ddiwrnod.

Dywedodd Jade iddi gael ei denu at gyrsiau Addysg Oedolion Cymru gan eu bod yn cynnig hyblygrwydd. Mae Jade yn rhiant sengl i dri o blant dan 5 oed ac mae ei rhieni yn ei helpu i ofalu amdanynt pan mae'n gwneud ei gwaith cwrs. Meddai Jade, "Fy mhlant sydd wedi fy sbarduno. Maent wedi dechrau yn yr ysgol ac yn dod â gwaith gartref ac rwyf eisiau medru eu helpu."

Yn ôl Jade, mae ei pherthnasau wedi holi am y cyrsiau ac mae wedi cymell eraill i fod eisiau ei dysgu. Bu cymaint o gynnydd yn ei hyder a'i sgiliau cyfathrebu fel y medrodd wirfoddoli i gymryd rhan yn yr Ymgyrch Llythrennedd Oedolion ar gyfer Radio 5 Live, lle bu'n trafod ei taith ddysgu yn fyw ar y radio. Dywedodd ei thiwtor, "Rydym yn falch iawn o Jade. Mae'n sicr y bydd ei hymddangosiad ar BBC Radio 5 Live yn cael effaith ar y gymuned ehangach ar draws Cymru ac yn ysbrydoli eraill i ddysgu."

Mae Jade hefyd yn gwirfoddoli yn ei chymuned leol ac yn dosbarthu parseli bwyd i bobl leol. Mae hyn hefyd yn bosibl oherwydd y cynnydd yn ei hyder a'i sgiliau.

Mae Jade yn awr yn awyddus i ddatblygu ei CV gyda nod o sicrhau lefel C mewn llythrennedd a chofrestru ar gwrs nyrsio. Ei chyngor i ddarpar ddysgwyr yw, "Dewch o hyd i'r cwrs iawn i chi a gwnewch eich gorau. Bydd eich tiwtor yn eich cefnogi i wneud y gweddill!"

# **Dysgu Oedolion yn y Gymuned**
Abertawe fel Dinas Ddysgu



Mae cysylltiad agos rhwng Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Abertawe ar draws adrannau'r Cyngor a darparwyr dysgu eraill o fewn y ddinas. Cafodd y cysylltiadau hyn eu cryfhau pan ddathlwyd Abertawe fel Dinas Ddysgu yn 2019 gyda Gŵyl Ddysgu Abertawe pan fu darparwyr yn cydweithio i gynnig dros 300 o gyfleoedd dysgu gyda dros 9,000 yn cymryd rhan. Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn gweithio gyda phartneriaid i adeiladu ar statws Abertawe fel Dinas Ddysgu UNESCO drwy ddatblygu cyfeiriadur ar-lein o gyfleoedd dysgu ar draws y ddinas.

Bu llawer o sylw i waith partneriaeth yn ddiweddar gyda nifer o ddigwyddiadau cymunedol yn ystod yr haf i hyrwyddo gwasanaethau a chyfleoedd dysgu yn syth i galon cymunedau lleol. Mae partneriaethau newydd a ffurfiwyd drwy'r digwyddiadau hyn wedi arwain at gynlluniau cyffrous gyda ffocws ar gynyddu nifer, cymysgedd a chefndir dysgwyr. Mae cyswllt ar lefel y gymuned yn allweddol i ehangu'r ystod dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau addysg oedolion a rhoi man mynediad hygyrch.

Cafodd y ffaith hon ei chydnabod ers amser maith yn Abertawe gyda'r rhaglen Dysgu fel Teulu. Mae'r rhaglen yn denu llawer o ddysgwyr anodd eu cyrraedd i addysg oedolion drwy ddarparu cyfleoedd dysgu yn y gymuned am ddim, cyfeillgar a chyfleus. Cefnogi eu plant drwy'r ysgol yw'r sbardun i lawer o rieni neu ofalwyr i fynychu. Mae'r profiad dysgu cadarnhaol a chefnogol o fewn y rhaglen yn ennyn brwdfrydedd llawer i barhau ar eu taith ddysgu eu hunain. Mae cysylltiadau cryf gyda darparwyr eraill, cyfeirio opsiynau yn glir a staff gwybodus yn cyfuno i wneud Dysgu fel Teulu y prif ddull ymgysylltu ar gyfer dosbarthiadau addysg oedolion. Mae cysondeb a chefnogaeth tiwtoriaid o fewn lleoliadau cymunedol yn cynyddu hyder dysgwyr a allai fod wedi cael profiadau gwael o ddysgu yn flaenorol.

Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn Abertawe yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflogadwyedd i gefnogi'r rhai sy'n dymuno symud ymlaen i hyfforddiant pellach neu gyfleoedd swydd. Mae gweithio partneriaeth agos wedi arwain at gyfleoedd i wella sgiliau, ennill achrediad, cael mynediad i gefnogaeth a phrofiad gwaith i ddysgwyr a chleientiaid cyflogadwyedd. Datblygwyd a chyflwynwyd cyrsiau pwrpasol mewn cyd-destun ar gyfer rhieni i ddiwallu diddordebau eu cleientiaid. Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cydnabod pwysigrwydd dysgu gydag achrediad a heb achrediad a chafodd ein cynnig yn y ddau faes ei gynyddu a'i ehangu. Mae sgiliau hanfodol yn rhan sylfaenol o'r dosbarthiadau hyn a chawsant eu cynllunio i fagu hyder, cynyddu cynhwysiant cymdeithasol a gwella sgiliau ac iaith. Caiff y cyrsiau eu cynnig i unigolion a grwpiau caeedig ym mhob rhan o Abertawe gyda'r nod o gynyddu ymgysylltu ac ehangu ystod y rhai sy'n cymryd rhan.

# **Luke Tomkins**
# O Fyfyriwr i Athro



Cyflwynwyd Luke Tomkins i Addysg Oedolion a Cymorth Digidol drwy fynychu cwrs ‘Mynd i Ganolfannau Galw’ a gynhaliwyd gan Addysg Oedolion Caerdydd mewn partneriaeth gyda BT ym mis Ionawr 2020. Fodd bynnag, darganfu Luke nad gweithio mewn amgylchedd canolfan galw oedd y llwybr cyflogaeth y dymunai ei ddilyn.

Yn ystod y cwrs, siaradodd y tiwtor a Luke am opsiynau eraill a chofrestrodd Luke i fod yn Wirfoddolydd Addysg Oedolion gyda Gwirfoddoli Caerdydd. Cysylltodd gyda gwasanaethau cymorth digidol i gynorthwyo gyda chymorthfeydd digidol a sesiynau Sgiliau ar gyfer Yfory BT ar draws Caerdydd.

Pan gyrhaeddodd y pandemig, dechreuodd Luke gynorthwyo myfyrwyr addysg oedolion ar-lein, fel gwirfoddolwr, wrth i’w sesiynau symud i lwyfan dysgu ar-lein Google Platforms. Parhaodd Luke i gyflwyno clybiau cod ar-lein ar gyfer addysg oedolion a grwpiau gwasanaeth ieuenctid.

Roedd Luke yn amlwg yn angerddol am helpu eraill ac roedd yn wirioneddol frwdfrydig am addysgu, felly cafodd Luke ei atgyfeirio at fentor Mewn i Waith i ddatblygu ei sgiliau a gweithio tuag at y cymwysterau addysgu sydd eu hangen i sicrhau cyflogaeth.

Mae Luke yn awr yn gweithio fel tiwtor digidol gyda Gwasanaeth Cymorth Digidol Cyngor Caerdydd yn cyflwyno amrywiaeth o hyfforddiant ar-lein a wyneb i wyneb tebyg i Sgiliau ar gyfer Yfory BT, cymorthfeydd digidol, Let’s Talk Code Live a chlwb codio. Mae Luke yn awyddus i weithio gydag amrywiaeth o adrannau mewnol ac allanol i hybu’r cyfleoedd rhaglennu a chyfrifiadureg sydd ar gael yng Nghaerdydd.

# Guy ac Emma Garbett
## Nid yw'n rhaid ei wneud ar ben eich hun



Roedd Guy ac Emma yn mynychu dosbarth Sgiliau Hanfodol Dysgu Gydol Oes yn gyson yn Abertawe ond pan ddaeth y cyflod clo symudodd y dosbarthiadau i ddysgu o bell. Er mai dim ond ffonau symudol oedd ganddynt i'w defnyddio, roeddent yn awyddus i barhau. Bu modd iddynt ymuno â'r cynllun Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes drwy fenthyca gliniadur gyda mynediad Wi-Fi symudol. Cafodd hyn fanteision enfawr iddynt. Nid oedd y naill na'r llall wedi defnyddio e-bost o'r blaen, felly gydag ychydig o ymarfer a hyfforddiant gofalus, roeddent wrth eu bodd i lwyddo anfon eu negeseuon e-bost cyntaf. Agorodd hyn fwy o bosibiliadau dysgu ac roeddent yn medru cysylltu â'r tiwtor drwy e-bost.

Fe wnaeth eu llwyddiant barhau i gynyddu. Bu modd iddynt ymuno â Google Classrooms a dechrau defnyddio G-Suite i gael mynediad i waith a gweithgareddau, yna erbyn diwedd tymor yr haf, yn 2020, roeddent hyd yn oed wedi llwyddo i gwblhau ac ennill cymhwyster lefel mynediad Agored Cymru. Cynyddodd eu hyder mewn dysgu digidol ac fe wnaethant ymuno â chwrs technoleg gwybodaeth ar-lein Learn My Way i wella eu sgiliau ymhellach. Bwriadant barhau gyda'u dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol hefyd.

"Rydyn ni'n mwynhau bod yn rhan o ddosbarth ac mae'n rhoi'r cymhelliant rydym ei angen i wella ein sgiliau. Weithiau nid yw dysgu yn rhwydd i'r naill na'r llall ohonom, ond oherwydd ein bod yn gweithio ar ein cyflymder a'n lefel ein hunain, rydym wedi gweld cynnydd. Pan ddaeth y cyfnod clo, roeddem yn bryderus iawn heb wybod beth i'w ddisgwyl. Cafodd y dosbarthiadau eu canslo ac roeddem yn teimlo ein bod ar ben ein hunain. Diolch byth, fe wnaeth ein tiwtor gadw mewn cysylltiad a chyn hir fe wnaeth y dosbarthiadau barhau o bell. Roedd yn ollyngdod gwybod nad oeddem ar ben ein hunain. Roedd dal ati'n golygu fod gennym rywbeth i ganolbwyntio arno bob wythnos.

Rydym wedi dysgu cymaint. Wnes i erioed freuddwydio y byddwn yn medru anfon e-bost a gweithio ar-lein. Mae ein sgiliau ar y cyfrifiadur yn gwella drwy'r amser a rydyn ni'n llawer mwy hyderus. Rydyn ni hyd yn oed wedi ymuno â dosbarth cyfrifadur i ddysgu mwy. Byddwn yn bendant yn argymell fod pobl yn ymuno â dosbarth neu'n dysgu sgil newydd. Bydd yn newid eich bywyd. Mae'n sicr wedi newid ein bywydau ni."

# **Ffion Mon Roberts**
# Iaith Arwyddion Prydain



Bu Ffion Roberts yn dysgu Iaith Arwyddion gyda Choleg Llandrillo am y chwe mlynedd diwethaf. Arweiniodd ei hastudiaethau maes o law at iddi ddilyn gradd mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac Astudiaethau Byddar ac mae hefyd wedi gorffen ei lefel 4 mewn BSL yn ddiweddar. Mae Ffion yn ei thrydydd blwyddyn ar hyn o bryd ac yn gobeithio graddio yn 2023. Cyn dechrau ar ei hastudiaethau roedd Ffion yn gweithio'n llawn-amser nes i'w swydd ddod i ben. Fodd bynnag, gwelodd Ffion hyn fel cyfle i symud i swydd ran-amser ac i gofrestru ar gymhwyster ffurfiol. Dechreuodd diddordeb Ffion mewn dysgu Iaith Arwyddion yn ei chartref ei hun.


Dywedodd Ffion "Cefais fy magu o amgylch teulu byddar a wnaeth fy ysbrydoli i wneud iaith arwyddion. Mae fy ewythr a ddau o'i blant yn Fyddar, mae gan ei fab hefyd ferch Fyddar sy'n 10 oed ar hyn o bryd. Felly cyflwynwyd Iaith Arwyddion i fi pan oeddwn yn ifanc iawn. Roeddwn yr un oed ag un o fy nghefndryd ac yn gweld ein gilydd yn aml. Dwi'n meddwl i hynny gael gafael ar yr iaith yn eithaf cyflym a wnaeth fy ysbrydoli i wneud mwy ac i ddysgu mwy.

Drwy ddysgu BSL y gwnaeth Ffion gwrdd â'i phartner dwys-fyddar ac mae'n defnyddio iaith arwyddion i gyfathrebu o ddydd i ddydd. Mae llwyddiant Ffion yn dysgu hefyd wedi agor llwybr newydd iddi gan iddi gael swydd newydd yn ddiweddar yn y Ganolfan Arwydd-Golwg-Sain ym Mae Colwyn fel Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu lle bydd yn gweithio gydag unigolion byddar i roi gwybodaeth a chymorth hygyrch.


Dywedodd Ffion "Fy ngobaith yw dod yn ddehonglydd BSL. Rwy'n gwybod fod hynny ymhell i ffwrdd ond bydd y swydd yma yn golygu y gallaf ymarfer bob dydd ac mae'r ffaith fy mod yn ei fwynhau yn fonws. Cefais fy mwlio'n ddrwg pan oeddwn yn yr ysgol a gadawais yr ysgol yn 16 oed gyda TGAU a mynd i'r coleg i astudio gofal plant. Fe fues yn gweithio fel cynorthwyydd addysgu mewn gwahanol ysgolion yn Sir Fôn ar ôl cymhwyso a phenderfynu ar lwybr gyrfa newydd yn 2015. Dyna pryd y dechreuodd fy nhaith BSL. Os ydych yn ystyried gwneud rhywbeth tebyg, byddwn yn eich cynghori i wneud hynny! Mae'n hwyl, byddwch yn dysgu rhywbeth gwahanol. Ewch amdani i ddysgu BSL."



Mae ennill cymhwyster yn ystod canol oes yn gysylltiedig gyda llai o risg afiechyd coronog y galon



Mae 76% o oedolion yn y DU yn dal i fod eisiau cyflawni eu breuddwydion plentyndod



Gall cymryd rhan mewn addysg oedolion gynyddu optimistiaeth a hunan-werth gan 8%



Mae dysgu gweithgaredd corfforol newydd tebyg i denis bwrdd yn gwella cydlyniaeth a nerth cyhyrau a all wneud i'ch ymennydd dyfu

# Mae'n dda i ddysgu



Gall cynyddu addysg helpu i ostwng y risg o iselder gan 15% ymysg menywod sy'n ddysgwyr



Gall addysg oedolion wella iechyd meddwl



Nid yw hi'n byth rhy hwyr i ddysgu! Mae 24% o oedolion yn y DU wedi newid gyrfaoedd pan oeddent yn hŷn



Gall dysgu ail iaith ohirio dyfodiad clefyd Alzheimer gan 2.5 gwaith

# Rôl Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn yr adferiad

**Mae Cymru yn ymroddedig i adeiladu economi a chymdeithas tecach a gwyrddach ar ôl y pandemig. Mae gan Dysgu Oedolion yn y Gymuned rôl hanfodol wrth adeiladu ein hadferiad.**

## Cysylltu eto

Rydym i gyd wedi colli cysylltiad medru gweld pobl eraill a bod yn weithgar yn ein cymunedau yn ystod y cyfnodau clo. Gall Dysgu Oedolion yn y Gymuned roi rhaff bywyd drwy helpu pobl a chymunedau i ddod ynghyd i ddysgu. Mae addysg oedolion sydd wedi'i ariannu'n dda a'i wreiddio yn anghenion cymunedau lleol yn un ffordd y gallwn helpu pawb ohonom i gysylltu gyda'n gilydd eto i ailadeiladu ein cymunedau.

## Cau'r bwlch digidol

Mae'r pandemig wedi dangos yr anghydraddoldeb digidol yn ein cymdeithas, gyda llawer o deuluoedd ac oedolion yn gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio, dysgu a chael mynediad i wasanaethau. Nawr yn fwy nag erioed mae gan Dysgu Oedolion yn y Gymuned rôl bwysig wrth helpu pobl i ennill sgiliau digidol newydd a sicrhau y gall pawb gael mynediad i'r gwasanaethau maent eu hangen.

## Ennill sgiliau ar gyfer byd newydd gwaith

Mae'r rhai gyda lleiaf o gymwysterau ymhlith y rhai a gafodd eu taro waethaf gan effaith economaidd y pandemig. Bydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn hollbwysig wrth gynnig cyfleoedd ar gyfer y rhai gyda lleiaf o gymwysterau i gynyddu sgiliau neu ddechrau llwybr i ailhyfforddi ar gyfer gyrfa newydd.

# Cenedlaethau'r Dyfodol

Future Generations Commissioner for Wales




**Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ganolog i bob thema o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

*"Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, caniatâd ac ddyletswydd gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd."*

**Mae Estyn wedi adrodd ar bryderon am y cysylltiadau rhwng tlodi a bylchau cynyddol mewn cyfraddau anawsterau iechyd meddwl a chyrhaeddiad addysgol, yn cynnwys y risg y byddai anghydraddoldeb o'r fath yn cael ei gynyddu eto fel canlyniad i'r pandemig.**

"Dylai pob math o addysg fod yn flaenoriaeth i Gymru i symud ymlaen i fynd i'r afael â'r heriau sy'n bodoli a'r rhai sydd i ddod."

"Bydd mynediad i ddysgu yn y gymuned yn bwysig iawn wrth helpu pobl sydd wedi dioddef fel canlyniad i'r pandemig. Ymyrrwyd ar addysg llawer a byddant angen help ac arweiniad i symud ymlaen, eraill sydd angen cynyddu sgiliau oherwydd colli swyddi a rhai y mae eu hiechyd meddwl wedi dioddef oherwydd cyfnodau clo ac a fydd yn edrych am ffyrdd i gysylltu gydag eraill drwy ddysgu seiliedig yn y gymuned."

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cyflwyno cyfleoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol, gyda lleoliadau o fewn cymunedau ond mae hefyd wedi gwneud ymdrech sylweddol i newid i gyflwyno dysgu ar-lein ac yn parhau i ymchwilio dull cyfunol o ddysgu fel blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol.



# Sicrhau cenedl ail gyfle yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



"Pan mae'n dod at addysg, ddylai ein bywydau ni ddim dibynnu ar un cynnig, un siawns, un llwybr, un penderfyniad.

Ddylai hi byth fod yn rhy hwyr I ddysgu, nac i ymwneud â'r byd yn fwy democrataidd a beirniadol drwy addysg. I ddysgu sgil newydd neu ennill cymhwyster newydd.

I gael boddhad yn bersonol, yn ddiwylliannol ac yn academaidd.

Rwy'n benderfynol y bydd Cymru yn genedl ail gyfle, a bod modd I ni wireddu'r uchelgais gyda'n gilydd.

Gwir genedl ail gyfle yw un lle'r ydym yn cydweithio, adeiladu y ddinasyddiaeth a rannwn, mynd i'r afael ag effaith tlodi ar uchelgais, cyfle ac addysg."

**Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

[Mae'r araith lawn ar gael yma]

# Uchelgais ar gyfer y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned

## Cwricwlwm ehangach

Adeiladu cynnig eang o addysg oedolion yn ein cymunedau. Byddwn yn cynhyrchu cyfleoedd ar y cyd sy'n cynnig cysylltiad cymdeithasol a llesiant. Rydym eisiau parhau i fynd i'r afael ag unigrwydd, meithrin cyfalaf cymdeithasol a galluogi pobl i fyw'n dda.

## Mwy o gyfleoedd ar gyfer pobl hŷn

Mae cymryd rhan mewn dysgu yn gostwng yn sylweddol gydag oedran. Dim ond traean o oedolion 55-64 oed ac un ym mhob pump o rai 65-74 oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu.
Gall dysgu oedolion yn y gymuned roi cyfleoedd i heneiddio'n dda, cadw cyrff a meddyliau'n weithgar a chadw cysylltiadau gyda rhwydweithiau cymdeithasol.

## Meithrin cydnerthedd, llesiant a chysylltu addysg oedolion gyda'r GIG

Mae potensial i gysylltu addysg oedolion gyda'r GIG ac Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru yn fwy strategol. Mae tystiolaeth dda dros fanteision addysg oedolion ar iechyd a llesiant – rydym eisiau sicrhau mwy o bartneriaethau traws-sector, traws-lywodraeth, datblygu ac ymchwil i wneud i hyn ddigwydd yn genedlaethol a gyda byrddau iechyd lleol ledled Cymru a sicrhau fod gan dysgu oedolion yn y gymuned rôl mewn presgripsiynu cymdeithasol a chynlluniau iechyd cyhoeddus eraill.

## Datblygu economi gwyrdd

Mae'r sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ymroddedig i gryfhau ei bartneriaethau ar draws Cymru a chryfhau ei gysylltiadau gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gan sicrhau y gall dysgwyr gael mynediad i'r hyfforddiant a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i adeiladu economi gwyrddech a thecach.

## Cryfhau llais dysgwyr

Dysgwyr yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Drwy roi adborth ar eu profiadau maent yn ein helpu i lunio a gwella darpariaeth a mynediad yn barhaus. Hwy hefyd yw'r eiriolwyr gorau dros ddysgu ac mae ganddynt rôl werthfawr wrth annog eraill yn y gymuned i gymryd rhan. Bydd adolygu sut ydym yn cynnwys ac ennyn diddordeb dysgwyr a pha gefnogaeth maent ei angen yn y rôl hon yn flaenoriaeth.

## Anghenion datblygu gweithlu

Bu'r ychydig flynyddoedd diwethaf yn her i bawb mewn addysg, ac mae ein tiwtoriaid wedi manteisio ar y cyfle i ddysgu, gan wella eu llythrennedd digidol eu hunain, i gadw fyny gyda'u dysgwyr a defnyddio technoleg newydd i sicrhau fod dysgwyr yn parhau i aros mewn cysylltiad a theimlo fod ganddynt gefnogaeth. Mae gan diwtoriaid Dysgu Oedolion yn y Gymuned rôl hanfodol wrth helpu dysgwyr i oresgyn profiadau negyddol blaenorol, cynyddu eu hyder a chefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Bydd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cydweithio i sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu gweithlu, gan weithio gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg a chydweithredu gydag Addysgwyr Cymru i ysbrydoli mwy o bobl i ddod yn addysgwyr oedolion.



PARTNERIAETH CYMRU
DYSGU OEDOLION
ADULT LEARNING
PARTNERSHIP WALES